# Rhaglen Gyflawn

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **PWYLLGOR ARDAL DWYFOR** |
| Dyddiad ac Amser | **5.15 y.h. Dydd Llun, 12fed Rhagfyr, 2016** |
| Lleoliad | **Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.** |
| Pwynt Cyswllt | **Bethan Adams 01286 679020**<br>**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru** |

**Rhaglen**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** | |
| **2.** | **CYFLWYNIAD AR WAITH GALW GWYNEDD, Y GANOLFAN GYSWLLT YM MHENRHYNDEUDRAETH**<br><br>I dderbyn cyflwyniad gan Joanne Parry (Rheolwr Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd a'r Gwasanaeth Cofrestru). | |
| **3.** | **TREFNIADAU ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL - MAI 2017**<br><br>I drafod trefniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017. | 3 - 4 |

*Dymunir atgoffa aelodau o'u cyfrifoldeb i wneud penderfyniad eu hunain ynglŷn â'r angen i ddatgan buddiant ac i adael y cyfarfod.*

Dosbarthwyd 7/12/16

**Gwahoddir aelodau sydd wedi methu a bod yn bresennol yn y ddau weithdy 'Adolygiad o'r Drefn Craffu' i aros ar ôl ar derfyn y cyfarfod am sesiwn anffurfiol i gasglu barn a sylwadau ar yr opsiynau posib sydd dan ystyriaeth.**

(Copi o'r modelau sydd wedi eu rhannu yn y gweithdai wedi eu cynnwys ar wahân i aelodau yn unig)

## AELODAU

## <u>Y CYNGHORWYR</u>

Stephen W. Churchman
Anwen J. Davies
Aled Ll. Evans
Gweno Glyn
Simon Glyn
E. Selwyn Griffiths
Alwyn Gruffydd
John Brynmor Hughes
Sian Wyn Hughes
Jason Humphreys
Aled Wyn Jones
Michael Sol Owen
Peter Read
W. Gareth Roberts
Angela Russell
Hefin Underwood
Eirwyn Williams
Gruffydd Williams
Owain Williams
R. H. Wyn Williams

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Ardal Dwyfor |
| **DYDDIAD** | 12 Rhagfyr 2016 |
| **TEITL** | Trefniadau Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 |
| **PWRPAS** | Codi ymwybyddiaeth Aelodau'r Cyngor o'r trefniadau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol, Mai 2017<br>Trafod y sesiynau codi ymwybyddiaeth a sut i godi ymwybyddiaeth ymhellach |
| **AWDUR** | Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Fel mae'r aelodau yn ymwybodol, cynhelir etholiadau Llywodraeth Leol ar y 4ydd o Fai, 2017. Cafwyd cyfle yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 8fed o Ragfyr 2016 i dderbyn amlinelliad o'r trefniadau a pharatoadau ar gyfer etholiadau 2017.

1.2 Nodwyd fod tair ffrwd i'r gwaith paratoi, sef, Paratoi ymgeiswyr, Dyddiau Croeso a'r rhaglen hyfforddiant, ac yna ystyriaethau Technoleg.

## 2. Sesiynau Paratoi Ymgeiswyr

2.1 Nodwyd mai pwrpas y sesiynau paratoi yw rhoi cyfle i ddarpar ymgeiswyr ddod i gyfarfod â swyddogion ac aelodau o'r Cyngor i gael cyfle i gael mwy o wybodaeth am y disgwyliadau arnynt, a chael cyfle am sgwrs anffurfiol. Mae'r sesiynau wedi eu trefnu mewn ymateb i sylwadau gan nifer o Aelodau nad oeddent yn glir o beth i'w ddisgwyl yn dilyn ennill etholiad.

2.2 Mae sesiwn wedi ei threfnu ym mhob un o'r tair ardal fel a ganlyn:

| DYDDIAD | LLEOLIAD | AMSER |
|---|---|---|
| 17eg Ionawr, 2017 | Frondeg, Pwllheli | 6 – 8 yr hwyr |
| 18fed Ionawr, 2017 | Penarlag, Dolgellau | 6 – 8 yr hwyr |
| 19eg Ionawr, 2017 | Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon | 6 – 8 yr hwyr |

2.3 Gellir gweld copi o'r trefniadau ar gyfer y sesiynau hyn yn**Atodiad A**.

2.4 Bydd yr aelodau yn ymwybodol fod trefniadau wedi eu gwneud er mwyn codi ymwybyddiaeth i'r sesiynau trwy safle we'r Cyngor a'r cyfrifon trydar a facebook. Byddwn hefyd yn codi sylw trwy gysylltu gyda'r Cynghorau Cymuned a thrwy'r grwpiau gwelidyddol.

2.5 Rydym yn ymwybodol fod gwahanol fforymau eraill fesul ardal y dylid cysylltu â hwy er mwyn codi ymwybyddiaeth. Gofynnir i aelodau'r Fforwm adnabod y fforymau eraill i'n cynorthwyo i sicrhau fod y neges yn cyrraedd cynnifer o bobl ag sy'n bosib.

## Atodiad A – rhaglen waith sesiynau codi ymwybyddiaeth

**PARATOI YMGEISWYR AR GYFER ETHOLIAD MAI 2017**

**CEFNDIR**

1. Mewn Cyfweliadau Datblygu Personol gydag aelodau unigol ac mewn trafodaethau yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2014/15, adnabuwyd yr angen i baratoi pobl yn well ar gyfer bod yn gynghorwyr sir, gan dargedu ymgeiswyr posib cyn iddynt gyflwyno enwebiadau fel eu bod yn deall yr fyddai yn eu wynebu pe byddent yn llwyddiannus.

**Y CYNNIG**

2. Anelu at etholiadau'r Cyngor Sir ar 4 Mai 2017, gan gofio y bydd y Rhybudd Etholiad yn cael ei gyhoeddi 6 wythnos cyn hynny ar tua 23 Mawrth.

3. Y bwriad yw cynnal cyfres o sesiynau ar gyfer rhai sydd yn ystyried cynnig eu hunain fel ymgeiswyr tua mis Ionawr 2017.

4. Bwriedir ceisio rhoi cyhoeddusrwydd mor eang â phosib ar gyfer y sesiynau hynny gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau pleidiau a rhestr bostio cynghorau cymuned i geisio denu cymaint o ddiddordeb â phosib yn y cyfarfodydd

5. Bwriedir cynnal 3 chyfarfod, un yn Arfon, un yn Nwyfor ac un ym Meirionnydd gyda'r nos gan lunio pecynnau gwybodaeth i'w rhannu a'u dosbarthu yno.

**RHAGLEN Y CYFARFODYDD**

| | |
|---|---|
| Croeso | Gair byr efallai gan Gadeirydd y Fforwm Arda |
| Bod yn Gynghorydd | Cyflwyniad gan AJ ar:-<br>• Gyfrifoldebau'r Cyngor Sir (Y gwahaniaeth efo cynghorau cymuned)<br>• Rôl yr Aelod Lleol a'r rôl sefydliadol o fewn y Cyngor (gofynion amser)<br>• Disgwyliadau technoleg ayb |
| Profiad Aelod Newydd | Sgwrs 10 munud gan aelod newydd (gwahanol yn y dair ardal) ar eu profiadau hwy yn 2012 |
| Trefn y Cyngor | Esboniad gan AJ o'r trefniadau gwleidyddol (Cabinet / Craffu / Trefn Bwyllgorau) |
| Ymddygiad Aelodau | Cyflwyniad gan IE / SH ar Safon Gwynedd a'r Côd Ymddygiad |
| Cyflog a Threuliau | Esboniad gan AJ o'r Drefn Cyflogau a Threuliau |
| Y Broses Etholiadol a'r Drefn Enwebiadau | Esboniad gan RH am y broses etholiadol, dyddiadau allweddol a ffurflenni i'w llenwi |
| Gofynion anwytho ar gyfer aelodau newydd ar ôl yr etholiad | Bydd angen i aelodau newydd fod ar gael i fynychu sesiynau anwytho dydd Mawrth a Mercher 9fed a'r 10fed o Fai, 2017 yng Nghaernarfon. Cyflwyno trefn y dyddiau a'r gofynion cyflwyno ganddynt ee manylion banc |

DS Gweithredu yn reit llac a chaniatáu i bobl ofyn cwestiynau fel y mae'r cyflwyniadau yn digwydd